



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 4 Gorffennaf 2022

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD GWENER, 8 GORFFENNAF 2022** am **10.00** am yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.

4 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.

5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

6 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 (copi ynghlwm)

7 ADRODDIAD MONITRO IAITH GYMRAEG BLYNYDDOL (Tudalennau 11 - 44)

I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2021/22 (copi ynghlwm)

8 EISTEDDFOD YR URDD (Tudalennau 45 - 46)

Derbyn adroddiad gan Swyddog yr Iaith Gymraeg yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar ganlyniadau'r Eisteddfod a rôl y Cyngor yn y digwyddiad (copi ynghlwm).

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 47 - 48)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm).

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Ann Davies
Gill German
Huw Hilditch-Roberts
Paul Keddie

Merfyn Parry
Elfed Williams
Huw Williams
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd Trwy Gynhadledd Fideo, Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Arwel Roberts, Graham Timms (Cadeirydd) a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Arsylwyr - Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Swyddog Iaith Gymraeg (MC), Swyddog Comisiynu (HE), Swyddog Cynllunio (BM), Gweinyddwyr Pwyllgorau (RTJ) (KJ – Host)

1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr Arwel Roberts ac Emrys Wynne fuddiant personol yn eitem 7 ar yr agenda gan fod y ddau wedi cymryd rhan yn y paratodau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Amlygodd y Cynghorydd Emrys Wynne bryderon ynghylch gwallau cyfieithu mewn rhai dogfennau pwyllgor, a holodd a allai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau ymateb i'r pryderon. Mewn ymateb byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau yn ymchwilio i'r mater ac yn ei godi gyda'r gwasanaeth priodol i'w drin yn ffurfiol.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022.

Materion yn codi -

- Amlygodd yr aelodau nad oeddent wedi derbyn y diweddariad a godwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf, ymatebodd gweinyddwr y pwyllgor drwy roi sicrwydd i aelodau bod aelodau'r pwyllgor wedi derbyn y diweddariad, ond nad oedd unrhyw arsylwyr wedi derbyn. Byddai unrhyw ddiweddariadau yn y dyfodol yn cael eu dosbarthu i arsylwyr hefyd.
- Roedd yr aelodau am ailadrodd eu canmoliaeth o'r holl waith yr oedd yr holl swyddogion sy'n gysylltiedig â 'Mwy na Geiriau' wedi ei wneud.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

5 TAITH IAITH CYMRAEG YN Y CYNGOR

Cyflwynodd Swyddog yr Iaith Gymraeg (SIG) y Swyddog Comisiynu (Ardaloedd) (SC) sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg tra'n gweithio i'r Cyngor.

Diolchodd y SC i'r Swyddog Iaith Gymraeg am y cyflwyniad, dywedodd wrth y pwyllgor ei bod wedi bod yn gweithio i'r awdurdod lleol ers sawl blwyddyn. Roedd y Gymraeg yn bwysig iawn iddi'n bersonol gan fod ei thad yn siaradwr Cymraeg ond oherwydd ymrwymadau gwaith buont yn teithio'r byd fel teulu ac yn methu â dysgu'r iaith. Er y byddai ei thad bob amser yn defnyddio termau fel 'cariad' tra'n iau.

Roedd y SC wedi mynychu dau gwrs Cymraeg ac wedi'u cael yn fuddiol i'w thaith ddysgu, yn ogystal â'r sesiynau coffi a sgwrsio a gynhaliwyd gan y Swyddog Iaith Gymraeg, gan ei bod yn dda trafod y daith ddysgu gyda dysgwyr eraill.

Dywedodd y SC wrth y pwyllgor ei bod hi, yn ystod y pandemig y bu'n gweithio yng ngofal preswyl Dolwen, yn deall pwysigrwydd hanfodol i drigolion allu sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig i'r rhai sy'n dioddef o ddementia. Canmolodd a chymeradwyodd y pwyllgor yr holl waith caled ac ymrwymiad yr oedd y SC wedi'i wneud drwy ei thaith Gymraeg. Holwyd a oedd unrhyw beth ychwanegol y gallai'r Cyngor ei wneud i gynorthwyo gyda'r broses ddysgu. Ymatebodd y SC nad oedd dim byd ychwanegol y gellid ei wneud i gynorthwyo gyda dysgu'r iaith.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau i'r SC am fod yn swyddog rhagorol ond hefyd am ei chymorth drwy'r pandemig ar ran y Cyngor.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi Taith Iaith Gymraeg y Swyddog Comisiynu (Ardaloedd) yn y Cyngor.

6 SAFONAU'R IAITH GYMRAEG - SAFON 94

Cyflwynodd Swyddog yr Iaith Gymraeg (SIG) Safonau'r Gymraeg - Safon 94 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

Dywedodd y Swyddog Iaith wrth y pwyllgor fod dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg, i gael Polisi ar Ddyfarnu grantiau (Safonau 94). Ar hyn o bryd nid oedd gan y Cyngor un felly a oedd yn torri'r Safonau.

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn 2015, fel rhan o'r broses gyflwyno i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru. Crëwyd y Safonau mewn ymateb uniongyrchol i greu Mesur y Gymraeg (2011) a rôl Comisiynydd y Gymraeg.

Ymddengys fod y Cyngor yn cydymffurfio â mwyafrif y Safonau ar draws y Bwrdd.

Mae'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth yn nwylo'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol, sydd â chyfrifoldebau corfforaethol dros y Gymraeg. Cânt eu cefnogi gan dîm o Hyrwyddwyr y Gymraeg sy'n gweithredu'n wirfoddol i hyrwyddo'r ymagwedd gorfforaethol. Mae'r gydymffurfiaeth hefyd yn destun profion ar hap gan sefydliadau eraill, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Er ei bod yn ymddangos ein bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif o'r Safonau, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal anwiriadau ar yr holl wasanaethau cyhoeddus yn rheolaidd ac mae ymchwil diweddar yn dangos nad oes gan y mwyafrif Bolisi ar Ddyfarnu Grantiau. Felly mae'n ddyletswydd arnom i lunio'r polisi fel rhan o'n hymdrechion i gydymffurfio â'r safonau.

Nid yw'n faes nad oedd y cyngor yn achwyn arno, a diolchodd i'r Swyddog Iaith Gymraeg gyda'r cyngor i CET. Y gobaith yw y bydd y mater yn cael ei ddatrys yn ystod haf 2022.

Holodd y pwyllgor am grantiau, gan nad oedd pobl sy'n ymgeisio am grantiau fel arfer yn deall pwysigrwydd y Gymraeg. Pe bai elfen o fewn grantiau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei hanghofio ac o ystyried ei rhagluniaeth, codwyd hefyd pam fod geiriad y Gymraeg mewn grantiau yn 'llai ffafriol' yn hytrach na chyfartal.

Ymatebodd y Swyddog Iaith Gymraeg drwy ddweud bod y term ffafriol yn cael ei ddefnyddio gan fod y term yn cael ei ddefnyddio drwy gydol Safonau'r Gymraeg.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi'r wybodaeth ynghylch Safonau'r Gymraeg - Safon 94.

7 EISTEDDFOD YR URDD - DIWEDDARIAD

Cyflwynodd Swyddog yr Iaith Gymraeg (SIG) ddiweddariad i'r aelodau ar baratodau ar gyfer yr Eisteddfod a rôl y Cyngor yn y digwyddiad (dosbarthwyd ynghynt).

Tywysodd y Swyddog Iaith Gymraeg yr aelodau drwy gyflwyniad byr ar y gwaith a wnaed i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod.

- Byddai'r Cyngor, fel partner hollbwysig, yn cael pabell fawr ar safle amlwg ar faes yr Eisteddfod. Thema'r babell fawr oedd yr iaith Gymraeg, diwylliant, treftadaeth, traddodiad, ailgylchu, newid hinsawdd, a chefn gwlad.
- Byddai gweithgareddau'r Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (rheol yr Urdd)
- Byddai siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn staffio'r Babell drwy gydol yr wythnos.
- Roedd cynllun y babell drwyddo, anogwyd Ysgolion i ddefnyddio'r theatr cyn unrhyw berfformiadau. Roedd myfyrwyr ysgol blaenorol wedi cael eu gwahodd i berfformio yn y theatr yn dda.
- Byddai llinell amser pecyn theatr yn cael ei rhannu yn nes at y dyddiad.
- Gobeithir y byddai cynnyrch lleol yn defnyddio'r Twristiaeth/busnes ar y safle, roedd cynlluniau ar gyfer ffenestr siop rithwir yn y babell, a fyddai'n hyrwyddo Sir Ddinbych.

- Byddai bylbiau planhigion yn cael eu rhannu gyda phobl oedd yn mynychu'r babell.
- Byddai treftadaeth leol yn cael ei rhannu.
- Bydd y trydydd gofod yn cael ei neilltuo ar gyfer celf a chrefft a bydd artist preswyl, Mari Gwent, yn gweithio yno yn ystod yr wythnos. Mae Sian Fitzgerald, Swyddog Celfyddydau Cymunedol Sir Ddinbych yn arwain ar y maes hwn, prosiect celf/Cymraeg ar y gweill mewn 11 ysgol gydag Eleri Jones a Catrin Williams. Bydd y gwaith gorffenedig yn cael ei arddangos ym mhabell y cyngor yn yr Eisteddfod.
- Byddai'r babell wedi ei lleoli wrth y fynedfa a fyddai'n dda i'r babell.
- Byddai tocynnau am ddim pe byddent wedi'u harchebu ymlaen llaw.

Byddai'r pwyntiau canlynol yn cael eu trafod –

- Cymeradwyodd y pwyllgor yr holl waith caled a wnaed gan y Swyddog Iaith Gymraeg yn ystod y paratodau ar gyfer yr Eisteddfod.
- Anogodd y Cyngorydd Gwyneth Kensler y dylid cynnwys Eirin Dinbych ar y cynnyrch lleol ym mhabell y Cyngor. Diolchodd y Swyddog Iaith Gymraeg i'r Cyngorydd Kensler am yr awgrym.
- Roedd y pwyllgor yn hapus i weld y byddai'r tocynnau am ddim, yn enwedig yn ystod y cyfnod ariannol anodd.
- Roedd rhai o aelodau'r pwyllgor yn teimlo'n anghyfforddus gyda theitl y sioe blant gan ei fod yn cyfeirio at '50 Shades of Grey' ac yn teimlo ei fod yn amhriodol. Roedd y Swyddog Iaith Gymraeg yn deall y pryderon a gallai drosglwyddo'r wybodaeth i ddramâu byr a oedd yn trefnu'r sioe, ond roedd y paratodau wedi hen ddechrau.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi cynnwys yr adroddiad.

8 CEFNDIR YSTYRIAETHAU CYMRAEG AR GYFER CDLI 2018 I 2033

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio (SC) Ystyriaethau'r Gymraeg ar gyfer y CDLI 2018 i 2033 Papur Cefndir (a gylchlythyrwyd yn flaenorol)

Bu aelodau'r Grŵp Cynllunio Strategol (GCS) yn trafod adroddiad cychwynnol ar y Papur Cefndir ar yr Iaith Gymraeg ar 17eg Ionawr 2022, gweler Atodiad 1. Teimlwyd ei bod yn hollbwysig ceisio barn Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn gynnar yn y broses o lunio'r adroddiad sydd i ddod polisi lleol ar gyfer y CDLI nesaf 2018 i 2033

- Yn y broses o baratoi CDLI 2018 i 2033
- Mae'r CDLI yn arwain datblygiadau newydd
- Rhaid i'r CDLI alinio â pholisi cenedlaethol
- Rhaid i'r CDLI gael ei gefnogi gan dystiolaeth
- Mae papurau cefndir yn cyfeirio at dystiolaeth a ffynonellau, gellir rhannu'r wybodaeth, a dymuno i unrhyw un o aelodau CIG gael mewnbwn ar y mater.

Roedd y GCS yn cydnabod yr anhawster wrth gefnogi'r laith Gymraeg yn y CDLI newydd ac yn arbennig yr anawsterau o ran cysylltu datblygiad newydd â'r effaith ar yr laith Gymraeg. Nid oedd aelodau'r GCS yn ystyried ei bod yn briodol yn y CDLI i ddyrannu rhannau o Sir Ddinbych fel rhai sensitif o ran yr laith Gymraeg. Mae'r GCS yn derbyn polisi sy'n gofyn am asesiad ieithyddol ffurfiol gyda phob cais cynllunio na ellir ei gynnwys yn y CDLI 2018 i 2033. Mae polisiau CDLI sydd angen cyfraniadau ariannol ar gyfer cynnal y Gymraeg yn cael eu derbyn gan y GCS fel rhai anodd ei dangos; gan fod yn rhaid i unrhyw gyfraniadau ariannol fod yn uniongyrchol gysylltiedig ag effaith y datblygiad newydd, ei strwythur. Nid oedd tystiolaeth ar gael yn Sir Ddinbych sy'n cysylltu adeiladu adeiladau newydd na'i effaith, â galluoedd ieithyddol trigolion. Mae'r GCS yn cefnogi argymhellion swyddogion i ehangu'r papur cefndir ieithyddol i gynnwys hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol aneddiadau. Mae aelodau'r GCS yn argymhell nodi nifer y siaradwyr wrth gyflwyno data ieithyddol yn hytrach na defnyddio ffigurau canrannol yn unig.

Darparwyd canllawiau cenedlaethol ar ddatblygu polisiau CDLI laith Gymraeg yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20. Mae'n nodi bod yn rhaid ystyried yr effaith ar yr laith Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau wrth baratoi CDLI. Ers cyflwyno TAN 20, yn 2017, mae ffocws ymgorffori'r Gymraeg mewn Cynlluniau Datblygu Lleol wedi newid. Cydnabuwyd bod creu a chynnal cymunedau, fel bod ganddynt wead cymdeithasol a diwylliannol cryf, yn galluogi'r Gymraeg i ffynnu. Mae polisi cenedlaethol bellach yn argymhell y dylid ystyried, fel rhan o bolisiau creu lleoedd, annog cymunedau cydlynol gydag ymdeimlad o le a hunaniaeth unigryw, a fyddai'n cefnogi'r laith Gymraeg.

Argymhellwyd felly bod unrhyw bapur cefndir i gefnogi CDLI 2018 i 2033 yn coladu gwybodaeth am wead diwylliannol a chymdeithasol aneddiadau yn ogystal â'u cymeriad lleol adeiledig a data ieithyddol. Argymhellwyd cyfeirio at hunaniaeth ac agweddau diwylliannol y gymuned fel y gellir eu croesgyfeirio ag adroddiadau eraill yn manylu ar aneddiadau.

Gall y papur cefndir hefyd argymhell sut y dylid drafftio polisiau yn CDLI 2018 i 2033. Awgrymwyd bod y papur cefndir yn hybu ystyriaeth o wead cymdeithasol a diwylliannol y gymuned. Gall y CDLI gefnogi grwpiau cymunedol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol yn fanylach -

- Holodd y pwyllgor am y pwerau oedd ganddynt mewn perthynas â'r adroddiad, eglurodd swyddogion mai nod yr adroddiad oedd derbyn awgrymiadau gan y pwyllgor a fyddai wedyn yn cael eu bwydo yn ôl i'r CCA a allai wedyn effeithio ar y CDLI.
- Roedd y pwyllgor yn anghyfforddus gyda hyd y CDLI gan y gallai sawl agwedd ar yr laith Gymraeg newid ymhen 15 mlynedd. Awgrymodd y pwyllgor y gellid gweithredu polisiau cynllunio i ddiogelu'r Gymraeg ymhellach.
- Awgrymodd y pwyllgor y dylid cynnal asesiad iaith Gymraeg ar bob cais cynllunio.
- Amlygodd y pwyllgor y byddai'n fuddiol amlygu'r Gymraeg i'r rhai sy'n symud i'r ardal, megis pecyn croeso yn amlygu'r iaith a diwylliant, hysbysodd Swyddog yr Iaith Gymraeg bod gwaith yn mynd rhagddo ar greu pecyn.

- Amlygodd y pwyllgor bwysigrwydd asesu'r effaith ar geisiadau cynllunio fel datblygiadau mwy gan y gallent newid canran siaradwyr Cymraeg yr ardal.

Awgrymodd y pwyllgor y canlynol ar gyfer proses y CDLI -

- Dod o hyd i fethodoleg i alluogi cynnal asesiadau iaith ar gyfer ceisiadau cynllunio.
- Bod mwy o dai yn cael eu datblygu ar gyfer y gymuned leol ac i gyfarch anghenion lleol.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn gwneud yr awgrymiadau uchod ar gyfer y CDLI.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd rhaglen waith y Pwyllgor i'r dyfodol i'w hystyried.

Cododd yr Aelodau'r materion a ganlynol –

- Byddai angen penderfynu ar benodi cadeirydd ac is-gadeirydd.
- Cytunodd swyddogion i drafod unrhyw eitemau ychwanegol ar gyfer y pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, derbyn a nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor.

Adroddiad i:	Grŵp Llywio'r Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	8 Gorffennaf 2022
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Emrys Wynne/ Nicola Stubbins
Awdur yr adroddiad:	Manon Celyn
Teitl:	Adroddiad Monitro Blynyddol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adroddiad Montro Iaith Gymraeg blynyddol y Cyngor

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2021/22, sydd yn ofyniad statudol.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei wefan, a disgwylir i'r adroddiad fanylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r Iaith Gymraeg.

4.2 Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau, i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi adroddiad.

4.3 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

4.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu cyraeddiadau a pherfformiad yn erbyn dangosyddion Iaith Gymraeg yr ydym wedi eu hadrodd yn eu herbyn; camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r Safonau a gwybodaeth ar lefelau ieithyddol staff.

4.5 Mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar gynnydd gyda'r fframwaith Mwy Na Geiriau a Chynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does dim cyllid penodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Daw unrhyw gostau yn syth o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

7.2 Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

7.3 Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac mewn cymunedau.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22 Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cefndir yr adroddiad	5
Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd	6
Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau'	29
Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg	30

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol ar y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â gofynion y Safonau rhwng Ebrill y 1af a Mawrth 31ain. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y chweched flwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg gydar ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn wahanol iawn i'r arfer. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn bositif i'r Safonau Iaith ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-22. Nid yw hyn wedi newid ac rydym yn hollol ymrwymedig at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. [Gweld rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy.](#)

Cafodd y trosglwyddo o weithio mewn swyddfeydd i weithio o gartref dros y ddwy flynedd ddiwethaf ei lyfnhau'n sylweddol gan ledaeniad cyflym a thrwyadl y platfform Zoom o fewn y Cyngor ac fe gymerwyd pob cyfle posib i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar y cyfrwng hwn. Mae ymdrechion mawr wedi eu gwneud yn ogystal i greu cyfleodd i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn rhithiol, ond mae'r lleihad yn y cyswllt wyneb yn wyneb yn parhau yn ofid i ni yn hyn o beth ac erys llawer o waith i'w wneud yn y maes hwn i'r dyfodol.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Roedd prif sylw'r Cyngor yn 2021/22 ar barhau i weithredu Safonau'r Gymraeg yn yr awdurdod a bod pawb yn cydymffurfio gyda'r 167 o Safonau o dan y penawdau Cynllunio

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Gwasanaethau, Llundain Polisïau, Hybu a Chadw Cofnodion. Roedd yn hanfodol cydweithio'n agos â Phencampwyr y Gymraeg ar draws y sir i wireddu hyn gan fod monitro cydymffurfiaeth staff yn heriol o ganlyniad i'r mwyafrif o'r gweithlu'n parhau i weithio o gartref. Rydym yn parhau i gefnogi'r gweithlu wrth weithredu'r Safonau Iaith yn fwy nag erioed ag ein targed oedd dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Caiff hyn ei wneud trwy hyrwyddo cyrsiau Cymraeg iddynt ddechrau ar eu taith iaith, neu gyrsiau hyder a gweithgareddau mewnol iddynt ddatblygu a meithrin eu sgiliau.

Yn ogystal â Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith 'Mwy Na Geiriau' a Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (rhoddir diweddariad ar y gwaith hwn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar o'r Bartner iaith sy'n cael ei arwain gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r Fforwm yn cynnwys nifer o sefydliadau, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hyd at 2032 Sir Ddinbych yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn a'r bwriad i uno y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol gyda Fforwm Iaith y Sir er mwyn goruchwyllo gweithredu a gwerthuso'r cynllun. Felly yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymdrechion swyddogion y Fforwm Iaith wedi bod ar gyfuno'r Fforwm a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan ddilyn model Cyngor Ynys Môn a Chyngor Sir Gar.

Golyga hyn y bydd pob cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy ran gydag un rhan yn benodol i Addysg a'r llall yn benodol ar gyfer y Fforwm Iaith. Bydd isafswm o 3 cyfarfod yn ystod pob blwyddyn a bwriedir cael Cadeirydd annibynnol. Prif fanteision y strwythur hyn fydd sicrhau bod cyfeiriad strategol clir, lleihau dyblygiad gweithgareddau a cynyddu y cyfle i fudd ddeiliad gydweithio ai gilydd.

Fe wnaeth swyddogion o'r Fforwm Iaith a CSGA fynychu cyfarfod cyfunol Cyngor Ynys Môn cyn y pandemig ac roedd yn fodel yr hoffem ei weithredu yma yng Nghyngor Sir Ddinbych gan fod llawer o fanteision i'r cyfuniad. Daeth Dewi Snelson o Fenter Iaith Sir Gar a Myfanwy o Gyngor Sir Gar i'n cyfarfod cychwynol er mwyn egluro sut maen nhw'n

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

gweithredu'r cyfuniad o fewn eu sir nhw ac roedd yn gyfle hefyd i aelodau leisio eu barn am y model newydd a holi cwestiynau am y manteision/anfanteision a herio'r penderfyniad. Roedd yr etholiad ym mis Mehefin yn golygu y byddai aelodau newydd ar ein pwyllgor CSGA ac felly penderfynwyd cynnal y cyfarfod cyfunol ffurfiol cyntaf fis Gorffennaf.

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor Bencampwr y Gymraeg gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tri mis i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion da a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae llawer o staff wedi dod yn Bencampwyr newydd dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi llwyddo i sicrhau 2 bencampwr ar gyfer pob gwasanaeth. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth trylwyr o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig yn ogystal â chynnal ymarferion siopwr cudd. Mae sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau iaith yn heriol iawn o ganlyniad i'r mwyafrif yn parhau i weithio gartref ac felly roedd sicrhau 2 aelod o staff ar gyfer pob gwasanaeth yn hanfodol i fonitro'r sefyllfa.

Gwnaed llawer iawn o waith cyfathrebu mewnol i'r Cyngor eto yn ystod 2021-22 gan barhau i atgyfnerthu'r safonau iaith trwy rannu rhestr wirio wrth ohebu, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn. Rydym hefyd wedi bod yn rhannu rhestrau geirfa â'r staff gyda seineg i gynorthwyo dysgwyr Cymaeg. Mae'r eirfa wedi bod ar ffurff dogfennau a fideos er mwyn i staff ddod i arfer â sain geiriau a sut i'w ynganu. Rydym wedi bod yn defnyddio diwrnodau cenedlaethol fel pwynt ffocws megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gwyl Dewi, Dydd Mawrth Crempog, Dydd Miwsig Cymru, Sul y Mamau, Shwmae Su'mae ac ati.

Cefndir yr adroddiad

Mae llunio adroddiad blynyddol yn rhan o waith sefydliad o hunanreoleiddio. [Gweld y dogfennau sydd gennym yn nodi trefniadau'r sefydliad ar gyfer cydymffurfio â'r safonau, datganiad yr iaith Gymraeg a Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022.](#)

Gorweddai cyfrifoldeb strategol am yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych gyda Thîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Nicola Stubbins, a'r Aelod Arweiniol gwleidyddol yw'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a oedd yn gyfrifol am Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd dros gyfnod yr adroddiad hwn.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Manon Celyn, Swyddog Iaith Gymraeg y cyngor oedd yn gyfrifol am y gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac os hoffech drafod yr adroddiad dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog trwy anfon e-bost at manon.celyn@sirddinbych.gov.uk.

Materion sy'n codi yn ystod y cyfnod adrodd

Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd

Gwelir isod fanylion am nifer / canran y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2021-22.

Atodiad 1 - Ymwybyddiaeth iaith (yn cynnwys ysgolion)

Statws	%
wedi'i gwblhau	76
heb ei gwblhau	24

Atodiad 2 - Amrywiol gyrsiau a gynhaliwyd/gwblhawyd yn y Gymraeg (data ond ar gael ers Rhagfyr 2021)

Manylion	Nifer wnaeth fynychu/gwblhau'r cwrs
Diogelu Data	19

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Manylion	Nifer wnaeth fynychu/gwblhau'r cwrs
Caethwasiaeth Fodern	2
Ymddygiad	12
Cydraddoldeb	26
Presenoldeb yn y gwaith	1
Ymsefydlu Corfforaethol	12
Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl	35
Ymwybyddiaeth o ddiogelu	27
Cyfanswm	134

Trefniadau goruchwylio/gwirio

Mae llwyddo i sicrhau dau Bencampwr y Gymraeg o fewn pob gwasanaeth yn rhoi'r cyfle i'r gwasanaethau dderbyn cymorth i wirio dogfennau wrth hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, ac mae'r un gefnogaeth yn cael ei rhoi gan y Swyddog Iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn y timau.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Gweithlu dwyieithog

Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith allweddol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael eu cyflwyno. Dyma rhai o'r prosiectau hynny:

Eisteddfod Staff

Cynhaliodd y Cyngor ei phedwaredd Eisteddfod rhwng Chwefror 18fed a Mawrth 1af fel rhan o ddatliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddatlu diwylliant Cymru. Daw ar adeg pan mae sylw sylweddol ar y Gymraeg a'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i'r sir ym mis Mai 2022. Unwaith eto eleni, o ganlyniad i covid-19, cynhaliwyd Eisteddfod ddigidol. Defnyddiwyd ein tudalen facebook staff preifat fel platfform i gynnal yr Eisteddfod a hyrwyddo categorïau amrywiol i staff gystadlu ynddynt drwy uwch lwytho llun i gyd-fynd â phob categori. Roedd y categorïau'n cynnwys Anifail anwes yn y cyflwr gorau, Anifail Mwyaf Talentog, Cyn ac ar ôl/Hen a newydd, brawddeg o'r gair DEWI SANT, a llawer mwy. Er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn yr Eisteddfod eleni, penderfynwyd benodi holl staff y cyngor fel beirniaid. Roeddynt yn dewis yr enillwyr trwy 'hoffi' y lluniau/fideos ar y dudalen facebook, a'r rheiny oedd â'r mwyaf o bleidleisiau oedd yn ennill. Roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn galonogol iawn eto eleni ac roedd llawer o ymgysylltiad gan staff.

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych

Mae Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i Sir Ddinbych eleni ar Fferm Kilford ar gyrion Dinbych. Dechreuwyd ar y paratodau yn 2018, ond o ganlyniad i'r pandemig cafodd yr Eisteddfod ei gohurio 2 waith. Fe wnaethom ail-gydio yn y trefnu yn 2021 ac rydym wedi cael misoedd prysur iawn yn arwain at yr Eisteddfod.

Cyngor Sir Ddinbych yw un i brif noddwyr Eisteddfod yr Urdd eleni ac rydym hefyd yn noddi'r ddwy sioe – sioe gynradd 'Ni yw y byd' a'r sioe uwchradd 'Fi di Fi'.

Bydd gennym babell fawr ar faes yr Eisteddfod o dan y thema 'Darganfod Sir Ddinbych'. Bydd gennym sawl adran gwahanol o fewn y babell:-

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Theatr - Ar gyfer ysgolion i ymarfer cyn mynd ar y llwyfan gan nad oes rhagbrofion yn yr Eisteddfod eleni. Bydd yr Urdd hefyd yn cynnal eu derbyniadau yno bob prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau; sesiwn stori gan Fiona Collins ar ddydd Mawrth a Sadwrn; darlleniadau cerddi gan Hywel Griffith a Sian ; disgo distaw gyda cwrdd a chyfarch ein masgo Dewi Draig; adloniant gan Ensemble Dyffryn Clwyd a llawer mwy.

Busnes / Twristiaeth – Yma bydd cyfle i fusnesau'r sir hyrwyddo eu cynnyrch/busnes megis One Planet, Carchar Rhuthun a Nantclwyd y Dre, teithiau cerdded o fewn y sir, gwasanaethau ieuenctid hefo gweithgaredd corfforol a llawer mwy.

Celf a chrefft – Bydd yr artist preswyl Mari Gwent yn cynnal gweithdy celf a chrefft trwy'r wythnos gan ddefnyddio deunyddiau naturiol o'r sir. Bydd gwaith sy'n cael ei adeiladu ar hyd yr wythnos yn ogystal â chyfle i'r plant greu brwsh paent naturiol i fynd adre gyda nhw.

Cefn gwlad – Bydd traciau beic y tu allan yng nghefn ein pabell, dôl blodau gwyllt yn y blaen yn ogystal â pwll tywod i'r plant gael chwarae.

Mae cynnwrf a bwrlwm mawr yn y sir ar gyfer yr Eisteddfod ac edrychwn ymlaen yn fawr i groesawu Cymru gyfan i'n sir godidog.

Paned a Sgwrs

Mae'r sesiynau'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol. Gan fod y niferoedd wedi gostwng dros y flwyddyn ddweithaf o ganlyniad i'r sesiynau symud i fod yn rhithiol, rydym wedi dechrau clwb darllen unwaith y mis sy'n digwydd wyneb yn wyneb yn ein Llyfrgell yn Ninbych a Rhuthun. Mae staff yn cael cyfle i ddewis llyfr o'r gyfres 'Amdani' sy'n addas ar gyfer dysgwyr a'i ddarllen erbyn y sesiwn nesaf. Yma, byddwn yn trafod y llyfr ac yn rhyoi cyfle iddyn fynegi eu barn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r seisiynau yma wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn gyda'r staff yn ffafrio sesiynau wyneb yn wyneb gan nad yw sesiynau Paned a Swgrs rhithiol yn cael yr un effaith â sesiynau wyneb yn wyneb. Paratowyd tasgau ysgrifenedig wythnosol ar gyfer staff hefyd er mwyn datblygu eu sgiliau ysgrifenedig.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Dydd Owain Glyndŵr

Rhannwyd fideo a wnaethom greu i ddangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y Sir yn ymwneud â'i hanes. Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys Glyndyfrdwy ble'r oedd un o ddau brif lys Glyndŵr yn ogystal â'r ffaith mai o amgylch yr ystadau yma y cymrodd Glyndŵr ei enw; Mwnt yn Llidiart-y-Parc ger Glyndyfrdwy ble cafodd ei gyhoeddi'n dywysog Cymru; Bryn Saith Marchog ble gafodd ffræe gyda Syr Reginald Grey (Arglwydd Dyffryn Clwyd yn Rhuthun) yn ymwneud â thir cyffredin a ddatblygodd i fod yn wrthryfel dros annibyniaeth i Gymru; Rhuthun ble cafodd y dref ei llosgi i'r llawr heblaw am y castell; ymosodwyd hefyd ar Ddinbych a Rhuddlan, ac mae plac ar hen adeilad Natwest yn Rhuthun a gafodd ei ddadorchuddio gan Dafydd Iwan yn 2000 er mwyn nodi 600 mlynedd Glyndŵr. Cawsom adborth gadarnhaol iawn gan staff a llawer yn nodi nad oeddent yn ymwybodol mor arwyddocaol oedd Sir Ddinbych yn hanes Glyndŵr. Mae'r fideo wedi'i gwyllo bron i 2,000 o weithiau. [Gwylwch fideo Owain Glyndŵr ar youtube yma.](#)

Ymgyrch 'Mae gen i hawl'

Ymgyrch genedlaethol yw hon i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae Awdurdodau Lleol yn eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn Sir Ddinbych ac i geisio cynyddu'r nifer oedd yn dewis eu defnyddio. Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor.

Ym mis Medi, roedd negeseuon allanol a bostiwyd ar ein cyfryngau cymdeithasol yn wythnosol yn cynnwys lluniau o staff sy'n siarad/dysgu Cymraeg yn nodi eu cyfrifoldebau a sut mae'r Gymraeg o fudd iddynt yn y swydd. Mae'r negeseuon wedi creu llawer iawn o sylw cadarnhaol ar ein cyfrifon gyda phobl yn canmol ein staff.

Dydd Santes Dwynwen

Crëwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o ddathliadau'r dydd eleni. Fe'i rhannwyd yn fewnol ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethon hefyd greu dogfen o eirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Diwrnod Shwmae Sumae

Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o ddatliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su'mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Roedd hi'n anodd creu rhywbeth newydd oherwydd y sefyllfa sydd ohoni hefo'r pandemig felly fe wnaethom rannu ambell neges ar ein cyfrifon cymdeithasol yn ogystal â rhannu'r fideo gafodd ei chreu gennym llynedd o fascot y ddraig goch (Dewi Draig) yn cael ei ffilmio yn ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Pasiodd y ddraig bêl rygbi i aelodau eraill o staff ar ôl dweud "shwmae" neu "sumae", yna gwnaeth yr aelodau staff hynny yr un peth. Y syniad y tu ôl i hyn oedd mai'r Gymraeg oedd y bêl rygbi a'n bod yn pasio'r iaith ymlaen. [Gwyliwch fideo diwrnod Shwmae Sumae 2020 ar youtube yma.](#)

Dydd Miwsig Cymru

Crëwyd rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg i'w rhannu gyda staff a'u hannog i chwarae'r rhestr chwarae gartref, yn y gwaith neu wrth deithio yn y car. Crewyd hefyd cwis 'emoji' i ddyfalu enwau caneuon Cymraeg. Roedd hwn yn boblogaidd iawn ar ein tudalen facebook staff gyda llawer o ymgysylltu.

Dydd Gŵyl Dewi

Eisteddfod y staff oedd y prif ddigwyddiad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eto eleni, ond fe wnaethom hefyd rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, geirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg a'r ffeithiau diddorol am y rheswm pam mai'r Cennin a'r Cennin Pedr yw symbolau cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r rheswm y tu ôl i'w gwisgo ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Pwyllgor Llywio'r Gymraeg

Mae'r pwyllgor wedi bod yn parhau i gyfarfod ar-lein dros y flwyddyn ddweithaf ac wedi bod yn gwahodd rhai o'n partneriaid i roi cyflwyniad yn y cyfarfodydd ar eu gwaith o fewn y sir. Mae'r partneriaid yn cynnwys Mudiad Meithrin a Menter Iaith Sir Ddinbych hyd yn hyn.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Rydym hefyd wedi bod yn gwahodd aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg i siarad am eu taith iaith a sut mae'r Gymraeg o fantais iddynt o fewn eu swydd a bywyd bob dydd.

Rhai o'r pethau eraill yr ydym wedi bod yn eu trafod yw Eisteddfod yr Urdd, Polisi Dyfarnu Grantiau, Safonau'r Iaith Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg sirol a chenedlaethol. Bydd yr aelodau'n newid ar ol yr etholiad fis Mehefin.

Logo iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost

Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

Hyrwyddo Safonau'r iaith Gymraeg

Rydym wedi creu dogfennau i hyrwyddo safonau'r iaith Gymraeg i'w rhannu ar dudalen facebook staff y cyngor, ein newyddlen ddyddiol, mewnwyd a'n system visiontime. Rhestr wirio i staff ydyw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gan ddilyn y canllawiau a roddwyd. Mae'r templedi yn cynnwys ateb y ffôn yn ddwyieithog, trefnu cyfarfodydd a gohebu.

Fideos i hyrwyddo'r Gymraeg

Gan fod llawer o bethau wedi newid i fod ar-lein neu'n ddigidol dros y 2 flwynedd ddiwethaf, mae wedi'n gorfodi i fod ychydig bach mwy creadigol yn y ffordd rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn cadw momentwm i fynd. Rydym wedi hyrwyddo llawer o fideos sydd wedi'u creu gennym dros y flwyddyn ddiwethaf megis fideo yn ynganu geirfa a brawddegau Cymraeg defnyddiol ar gyfer cyfarfodydd a sut i ynganu enwau rhai o drefi a phentrefi Sir Ddinbych. Mae'r fideos i gyd yn cael eu rhannu'n fewnol ac allanol ar ein tudalen facebook corfforaethol ac wedi cael eu rhannu sawl gwaith gan y cyhoedd.

Strategaeth iaith Gymraeg

Mae gan y Cyngor Strategaeth iaith Gymraeg 5 mlynedd mewn grym eisoes ac mae'n dod i ben eleni. Rydym wedi dechrau ar y gwaith ymgynghori gydag adrannau a phartneriaid

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

ar ddechrau'r flwyddyn fel bod y strategaeth ddiwygiedig yn weithredol erbyn 2023. Bydd data cyflawn y Cyfrifiad 2021 ar gael erbyn fis Mawrth 2023 a bydd ein camau gweithredu yn seiliedig ar y data hyn. Felly ein blaenoriaeth yw cyflwyno Strategaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf (2023-28) fydd yn gosod nod a thargedau uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod Sir Ddinbych yn Sir ble mae diwylliant a threftadaeth Cymraeg yn fyw a'r iaith Gymraeg yn ffynnu er mwyn ceisio cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych

Dechrau Da Sir Ddinbych:

Amser Rhigwm yn Fyw ar Facebook – yn wythnosol o ddiwedd Mawrth. Gweithgaredd ddwyieithog, yn cyflwyno'r Gymraeg i deuluoedd. 33 sesiwn, wedi eu gwyllo cyfanswm o 12,763 o weithiau gyda 5936 o ymatebion/sylwadau, a chyrraedd o 29,344 dros y flwyddyn

Fideos Siarad Babi (Cymraeg) ar YouTube – cyfres o 9 o fideos yn rhoi cyngor i rieni ar sut i gefnogi datblygiad siarad, darllen a chwarae eu babis. Wedi eu creu yn 2020, mae'r defnydd yn parhau i gynyddu, ac wedi eu gwyllo cyfanswm o 7191 o weithiau hyd at ddiwedd Mawrth 2022

Grwpiau Darllen Cymraeg

Mae grwpiau Sgwrs a Sangria (Llyfrgell Dinbych) a Llyfr a Llymed (Llyfrgell Rhuthun) wedi parhau eu cyfarfodydd rhithiol ac erbyn hyn yn ailgychwyn cyfarfod yn y Llyfrgelloedd yn 2022 bob yn ail fis.

Cafodd Cylch Darllen Glyndwr yng Nghorwen seibiant dros gyfnod y pandemig, ers dechrau 2022 maent wedi dechrau cyfarfod yn fisol yn Llyfrgell Corwen gyda llawer o hwyl a chwerthin yn ystod eu sesiynau!

Sialens Ddarllen Haf 2021: Arwyr y Byd Gwyllt

Daeth y Sialens lawn yn ei ôl a gwelwyd 1710 o blant yn cymryd rhan yn y sialens ddwyieithog. Roedd gwefan Gymraeg ar gael i gefnogi'r sialens unwaith eto eleni. (ariannwyd gan Lywodraeth Cymru) er mwyn i blant hefyd gymryd rhan yn rhithiol.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Ymgyrch Gaeaf Llawn Lles

Cynhaliwyd ymgyrch llwyddiannus yn Llyfrgelloedd Sir Ddinbych Ionawr – Mawrth 2022

450 o blant Ysgolion y Sir wedi ymweld a'u llyfrgelloedd lleol i weld y sioe Mewn Cymeriad wedi ei seilio ar y llyfr '10 o Storiau Hanes Cymru' gan Ifan Morgan Jones. Cynhaliwyd 13 sesiwn Gymraeg neu ddwyieithog mewn pum Llyfrgell gyda 11 o ysgolion yn cymryd rhan mewn gweithdai bywiog gyda'r cymeriad Hari Hanes. Trefnwyd y rhaglen gan Lyfrgelloedd Sir Ddinbych mewn Partneriaeth â Menter Iaith Sir Ddinbych.

Trefnwyd 24 o weithdai celf ar gyfer teuluoedd mewn saith o Lyfrgelloedd Sir Ddinbych yn cael eu harwain gan saith o grefftwyr ac arlunwyr lleol y rhan fwyaf ohonynt yn Gymry. Darparodd y Gwasanaeth Llyfrgell y rhaglen greadigol ar y cyd gydag Adran Cymunedau Bywiog Sir Ddinbych.

Cynhaliwyd gweithdai Lego ddwyieithog dan ofal Menter Iaith Sir Ddinbych mewn pedair llyfrgell gyda'r plant yn cael cyfle i ail-greu a dysgu am adeiladau hanesyddol yn eu hardaloedd - Corwen, Llangollen, Prestatyn a'r Rhyl. Yn ogystal â hyn roedd arlwy o ddigwyddiadau rhithiol yn Gymraeg a Saesneg wedi eu trefnu yn genedlaethol gydag awduron poblogaidd fel Manon Steffan Ros a Connor Allen.

Empathi Lab

Mae'r llyfrgelloedd wedi bod yn rhan o gynllun ar y cyd gyda nifer o ysgolion lleol i ddatblygu sgiliau empathi plant trwy gyfrwng cymeriadau mewn llyfrau. Derbyniodd pob aelod o staff hyfforddiant sylfaenol ac mae nifer o ymweliadau ysgolion wedi deillio o'r prosiect hefyd. Roedd y Prif Lyfrgellydd Bethan Hughes yn un o'r panel fu'n dethol llyfrau Cymraeg ar gyfer rhestr genedlaethol newydd ar gyfer y cynllun.

Benthyciadau llyfrau Cymraeg

Benthycwyd 15,103 o eitemau Cymraeg (llyfrau, llyfrau llafar a DVDs) yn ystod 21-22. Roedd dros 70% o rhain yn lyfrau plant ac yn dangos fod llyfrgelloedd lleol yn cyfrannu'n sylweddol at nod y Cyngor i gynyddu'r nifer o blant sy'n defnyddio'r iaith ac yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Gwasanaeth Cymraeg

Mae 65% o staff y gwasanaeth yn siarad Cymraeg ac mae gwasanaeth Cymraeg ar gael ym mhob llyfrgell. Rhoddir cefnogaeth i staff ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith.

Cymry Newydd

Ymsefydlwyd Grŵp trafod newydd yn Llyfrgell y Rhyl ar gyfer dysgwyr Cymraeg i sgwrsio ac ymarfer yr iaith. Mae grŵp Paned a Sgwrs wedi ailgychwyn cyfarfod yn Llyfrgelloedd Dinbych a Rhuthun yn dilyn cyfnod hir o gyfarfodydd rhithiol, ar gyfer staff y Cyngor.

Mae nifer o staff Llyfrgell yn dilyn cyrsiau Cymraeg amrywiol fel Cymraeg yn y gweithle.

Cynllunio'r Gweithlu

Mae disgwyl i bob gwasanaeth greu dogfen Cynllunio'r Gweithlu ac mae disgwyl i'r gwasanaethau gysidro os oes ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth gwbl ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael eu herio gan yr Uwch Dim Rheoli a chynghorwyr parthed cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith.

Safonau Iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn disgwyl i'r Cyngor adrodd, yn ei adroddiad monitro blynyddol, ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rhoddir crynodeb o'r wybodaeth isod.

Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r safonau Cyflenwi

Gwasanaeth

- Rydym wedi cyfathrebu gyda staff ar ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi atgoffa staff i gyd yn rheolaidd iddynt roi cyfle i bobl gael eu trosglwyddo at siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor.
- Rydym wedi cyflwyno un rhif ffôn ar gyfer prif switsfwrdd y Cyngor, sy'n rhoi'r opsiwn i bobl ddewis Gwasanaeth Iaith Gymraeg.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w cynnwys mewn templedi llythyrau, gan roi cyfle i breswylwyr ofyn am ohebiaeth drwy'r Gymraeg yn y dyfodol.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

- Rydym wedi cynnwys y datganiad 'Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg' ar ein holl dempledi i staff eu defnyddio er mwyn sicrhau fod y datganiad yn cael ei gynnwys bob tro.
- Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedau wedi sicrhau bod darn o waith sydd wedi ei gomisiynu ac sy'n digwydd mewn partneriaeth â 'Community Catalysts' yn gwbl ymwybodol o ofynion Safonau Iaith Gymraeg wrth iddynt ddarparu Micro-fentrau Cymunedol yn Sir Ddinbych.
- Rydym wedi cynnwys neges yn neges wedi'i recordio'r Ganolfan Gyswllt yn dweud bod llinell iaith Gymraeg ar gael.
- Rydym yn cofnodi os yw unigolyn yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthym yn y Gymraeg yn unig, a byddwn yn gohebu â'r unigolyn hwnnw yn y Gymraeg yn unig yn y dyfodol.
- Rydym wedi rhoi gwybod i staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus bod yn rhaid i gyhoeddusrwydd / gwahoddiadau fod yn Gymraeg bob tro, y dylid trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y medrant gyfrannu yn Gymraeg pe dymunir.
- Mae'r holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo a dogfennau arddangosfa.
- Cafwyd Gasanaeth Adleoli i Ofal ei sefydlu mewn ymateb i Covid-19 a'i nod oedd i sicrhau bod gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru â dinasyddion a oedd eisiau cefnogaeth trwy gyfrwng Cymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan yn ddwyieithog.
- Ymatebwn yn Gymraeg i bob ffurflen grant a dderbyniwn yn Gymraeg.
- Rydym wedi lansio ymgyrch hyrwyddo i farchnata cyfrifon cymdeithasol y Cyngor yn Gymraeg.
- Mae arwyddion wedi cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd i ddatgan bod croeso i bobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae ein holl arwyddion yn Gymraeg ac yn cael eu gwirio.
- Rydym wedi ychwanegu canllawiau pellach a chliriach ar ein gwefan ar sut i wneud cwyn am y Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

- Rydym wedi creu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar ein mewnwrwyd.
- Rydym wedi cyflwyno proses Adnoddau Dynol yn gofyn i'r holl staff a ydynt am dderbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi bod yn anfon negeseuon rheolaidd i'w Gwasanaeth am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn ogystal â'r gofyniad i gwblhau'r modiwl e-ddysgu gorfodol ar Ymwybyddiaeth y Gymraeg.
- Rydym wedi cynnwys tabl yn ein ffurflenni cais am swyddi sy'n holi beth yw lefel sgiliau iaith Gymraeg yr ymgeisydd
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu cyflogaeth, ac sy'n cyfeirio atynt yn bersonol, yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu cynllun gyrfa yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau hyblyg yn Gymraeg.
- Gall staff gyflwyno cwynion yn Gymraeg drwy weithdrefn cwynion corfforaethol gyda hyn wedi'i hysbysu i'r holl staff.
- Mae Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi bod gan staff hawl i wneud cwyn yn Gymraeg ac i ymateb i gŵyn a wneir amdanynt yn Gymraeg. Mae staff wedi eu hysbysu o'r hawliau hyn.
- Rhoddir cyfle i'r holl staff ofyn am unrhyw gyfarfod yn ymwneud â chwynion yn eu herbyn yn Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd cofnod o bob penderfyniad am gŵyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg (a chynhelir unrhyw gyfarfod wedyn yn Gymraeg).

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

- Mae ein polisïau Adnoddau Dynol yn nodi y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol gwirio sillafu a gramadeg wedi'i roi i'r holl staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ynghyd â rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (fel Microsoft Word ac Outlook) yn Gymraeg.
- Rydym wedi cyfieithu testun tudalen gartref ein mewnwyd i'r Gymraeg.
- Mae bob tudalen ar y fewnwyd sydd â thudalen gyfatebol yn Gymraeg yn cynnwys dolen i'r dudalen iaith Gymraeg honno.
- Crëwyd tudalennau ar y fewnwyd yn darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth er mwyn hybu'r Gymraeg a chynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar y fewnwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni asesiad o sgiliau iaith Gymraeg ei staff drwy hunanasesiad yn dilyn y Fframwaith newydd.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pob cyfle yn ystod oriau gwaith i staff fynychu cyrsiau iaith Gymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i staff sydd am barhau â'u hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol i dderbyn hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Mae gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei rhoi i bob aelod newydd o staff.
- Rydym wedi darparu logo iaith gwaith a geiriad i staff eu defnyddio yn eu llofnodion e-bost i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.
- Rydym wedi creu dogfen hunanasesu newydd i fesur perfformiad gwasanaethau o ran Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae pob un adran o fewn y cyngor wedi cwblhau'r holiadur sy'n holi beth yw lefel eu cydymffurfiaeth â'r Safonau fel ein bod yn cael darlun cyflawn o'n cydymffurfiaeth ar draws y cyngor, bod yn ymwybodol o'r gwendidau/cryfderau a ble sydd angen atgyfnerthu'r safonau.
- Rydym wedi parhau i gyfathrebu'n fewnol gyda staff yn gwbl ddwyieithog drwy gydol y pandemig gydag byst a chylchlythyron dwyieithog o'r Prif weithredwr yn diweddarau staff ar sefyllfa'r pandemig.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

- Rydym wedi hysbysu rheolwyr i ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio neu'i ddiwygio, rydym yn sicrhau bod yr holl reolwyr yn gwybod am yr angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg.
- Rydym wedi creu polisi newydd ar Ddyfarnu Grantiau yn dilyn y camau uchod.

Cwynion

Dosbarth o Safonau	Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol
Cyflenwi gwasanaethau	6
Llunio polisi	0
Gweithredu	0

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Dyddiad	Cwyn	Manylion	Camau a gymerwyd
26.9.21	Gwallau ar docyn Rhybudd Talu Cosb	<p>Honiad bod y Cyngor heb weithredu'n gywir yn dilyn apêl</p> <p>Gwallau yn y llythyr rhybudd</p> <p>Honiad nad oedd y Cyngor wedi anfon dogfen 'Rhybudd i berchennog' yn dilyn yr apêl</p> <p>Gwallau ar wefan PPCC</p>	<p>Nid oedd y cyngor yn medru anfon dogfen 'Rhybudd i berchennog' oedd yn cynnwys manylion yr achwynydd gan nad oedd y ddogfen yn bodoli gan fod yr achwynydd wedi talu'r ddirwy.</p> <p>Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymchwio ymhellach i'r mater am wallau ar y Rhybudd Talu Cosb ac ar wefan PPCC.</p>
12.4.21	Gwallau ar y wefan Llysgennad Cymru	<p>Honiad fod y wefan Gymraeg ddim yn gweithio gan ei fod yn arallgyfeirio i'r Saesneg.</p> <p>Defnyddio cyfeiriad e-bost Saesneg yn unig ar y dudalen Gymraeg.</p> <p>Honiad bod nifer o wallau ieithyddol yng nghynnwys Llysgennad Eryri gyda fideo Saesneg yn unig pan fodolir fersiynau Cymraeg o'r fideo.</p>	<p>Rydym yn ymchwilio i mewn i gael yr URL www.llysgennad.cymru yn hytrach na'i fod yn newid i www.ambassador.wales/cy/</p> <p>Rydym wedi newid y cyfeiriad e-bost Saesneg i twristiaeth@sirddinbych.gov.uk</p> <p>Mae'r cyngor wedi holi'r achwynydd anfon rhestr o'r gwallau ieithyddol at llysgennad.eryri@eryri.llyw.cymru</p> <p>Mae'r fideos ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg felly rydym wedi ymchwilio i weld pam nad oedd y fideo Cymraeg ar gael yr adeg yma.</p>
12.4.21	Gwallau ar y dudalen Gwastraff Gardd	Y gair "Briodwedd" yn cael ei ddefnyddio am "Property".	Rydym yn credu i'r gwall ddigwydd yn ystod y broses o drosglwyddo i'r wefan hygyrch newydd, ond nid oes tystiolaeth gadarn yn nodi sut na pham y digwyddodd hyn. Mae'r gair bellach wedi'i newid i 'eiddo'.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Dyddiad	Cwyn	Manylion	Camau a gymerwyd
			Rydym wedi gwirio'r wefan Gwastraff Gardd yn gyfan gwbl er mwyn sicrhau nad oes mwy o wallau yn y Gymraeg.
3.9.21	Arwydd ffordd gwallus	Arwydd gwallus gafodd ei osod ar y ffordd o Rhuthun i Glawddnewydd ar 19eg Awst.	Gwall argraffu gan y cwmni argraffu oedd hyn a cafodd yr arwydd ei gywiro ar y 23ain o Awst.
13.9.21	Diffyg enwau Cymraeg ar Siroedd a	Diffyg enwau Cymraeg i sir a threfi ar y dudalen wefan isod: https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/parcio-ffyrdd-a-theithio/cludiant-cyhoeddus/1bws.aspx	Ymholydd yn gofyn os y dylid defnyddio'r enwau Cymraeg Swydd Amwythig, Y Bermo a'r Waun yn hytrach na'r enwau Saesneg (Shropshire, Barmouth a Chirk). Rydym bellach wedi unioni'r gwallau.
11.1.22	Sylwadau Saesneg ar e-bost Cymraeg	Achwynydd wedi derbyn e-bost yn Gymraeg gan y Cyngor gyda diweddariad/sylwadau yn Saesneg.	Gwall dynol oedd hyn ac mae e-bost wedi cael ei hanfon at bob aelod o staff sydd â mynediad at y system ar-lein yn eu hatgoffa bod angen rhoi diweddariad ar unrhyw sefyllfa yn iaith ffafriol y cwsmer – y Gymraeg yn yr achos yma.

Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Cyflwynir isod y wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bresennol. Bwydir y wybodaeth yma'n ôl i'r gwasanaethau fel bo'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gallu cynllunio eu gweithluoedd.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio ysgolion)

Lefel	Gwranddo a Siarad		Darllen a Deall		Ysgrifennu	
	2021	2022	2021	2022	2021	2022
Lefel 0	356 (15%)	388 (15%)	429 (18%)	466 (18%)	640 (27%)	714 (27%)
Lefel 1	878 (37%)	970 (37%)	853 (36%)	954 (36%)	708 (30%)	773 (29%)
Lefel 2	268 (11%)	306 (12%)	225 (9%)	239 (9%)	241 (10%)	261 (10%)
Lefel 3	146 (6%)	158 (6%)	131 (5%)	153 (6%)	118 (5%)	139 (5%)
Lefel 4	174 (7%)	167 (6%)	183 (8%)	182 (7%)	111 (5%)	109 (4%)
Lefel 5	145 (6%)	167 (6%)	145 (6%)	161 (6%)	118 (5%)	138 (5%)
Dim gwybodaeth	416 (17%)	487 (18%)	417 (17%)	488 (18%)	447 (19%)	509 (19%)
Cyfanswm	2,383 (100%)	2,643 (100%)	2,383 (100%)	2,643 (100%)	2,383 (100%)	2,643 (100%)

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Sgiliau Gwranddo a Siarad fesul Gwasanaeth (ac eithrio ysgolion)

Gwasanaeth	Lefel 0 %		Lefel 1 %		Lefel 2 %		Lefel 3 %		Lefel 4 %		Lefel 5 %		Dim gwybodaeth %	
	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022
Blwyddyn														
Gwella Busnes a Moderneiddio	12	11 (-1)	37	35 (-2)	21	22 (+1)	10	10	10	10	6	7 (+1)	5	5
Cymunedau a Chwsmeriaid	5	8 (+3)	35	41 (+6)	12	13 (+1)	7	7	15	14 (-1)	14	11 (-3)	11	6 (-5)
Gwasanaetha u Cymorth Cymunedau	21	19 (-2)	31	33 (+2)	10	11 (+1)	6	6	6	6	4	4	21	19 (-2)
Gwasanaetha u Addysg a Phlant	7	10 (+3)	29	30 (+1)	11	12 (+1)	5	7 (+2)	7	7	7	9 (+2)	34	26 (-7)
Cyllid ac Eiddo	13	13	41	43 (+2)	11	13 (+2)	10	9 (-1)	10	9 (-1)	8	9 (+1)	7	3 (-4)
Priffyrdd ac Amgylchedd	21	18 (-3)	49	45 (-4)	10	9 (-1)	5	5	4	4	4	4	6	3 (-3)
Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	10	8 (-2)	46	43 (-3)	12	12	4	5 (+1)	8	7 (-1)	15	13 (-2)	5	11 (+6)
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad	8	13 (+5)	28	30 (+2)	15	15	6	6	7	5 (-2)	4	6 (+2)	32	25 (-7)

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Sgiliau Darllen a Deall

Gwasanaeth	Lefel 0 %		Lefel 1 %		Lefel 2 %		Lefel 3 %		Lefel 4 %		Lefel 5 %		Dim gwybodaeth %	
	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022
Blwyddyn														
Gwella Busnes a Moderneiddio	13	13	43	40 (-3)	13	17 (+4)	10	8 (-2)	10	8 (-2)	6	9 (+3)	5	6 (+1)
Cymunedau a Chwsmeriaid	7	9 (+2)	34	41 (+7)	12	10 (-2)	7	10 (+3)	15	10 (-5)	14	12 (-2)	11	6 (-5)
Gwasanaetha u Cymorth Cymunedau	25	24 (-1)	30	32 (+2)	8	8	6	5 (-1)	6	6	4	5 (+1)	21	19 (-2)
Gwasanaetha u Addysg a Phlant	9	12 (+3)	30	32 (+2)	8	9 (+1)	5	6 (+1)	7	9 (+2)	7	7	34	26 (-8)
Cyllid ac Eiddo	15	14 (-1)	39	45 (+6)	11	10 (-1)	10	7 (-3)	10	14 (+4)	8	7 (-1)	7	3 (-4)
Priffyrdd ac Amgylchedd	26	22 (-4)	45	42 (-3)	0	9 (+9)	5	4 (-1)	4	4	4	3 (-1)	6	16 (+10)
Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	13	11 (-2)	44	41 (-3)	1	11 (+10)	4	5 (+1)	8	8	15	13 (-2)	5	11 (+6)
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad	10	17 (+7)	30	30	10	10	6	5 (-1)	7	7	4	5 (+1)	32	25 (-7)

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Sgiliau Ysgrifennu

	Lefel 0 %		Lefel 1 %		Lefel 2 %		Lefel 3 %		Lefel 4 %		Lefel 5 %		Dim gwybodaeth %	
	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022	2021	2022
Blwyddyn														
Gwella Busnes a Moderneiddio	30	30	29	27 (-2)	21	23 (+2)	2	3 (+1)	6	6	6	7 (+1)	5	5
Cymunedau a Chwsmeriaid	20	26 (+6)	26	28 (+2)	12	11 (-1)	10	10	9	8 (-1)	11	10 (-1)	12	6 (-6)
Gwasanaetha u Cymorth Cymunedau	34	34	21	23 (+2)	8	8	5	5	3	3	3	3	26	23 (-3)
Gwasanaetha u Addysg a Phlant	17	20 (+3)	25	26 (+1)	8	10 (+2)	5	5	4	4	6	8 (+2)	34	26 (-8)
Cyllid ac Eiddo	30	31 (+1)	29	31 (+2)	12	11 (-1)	10	10	7	7	5	6 (+1)	7	3 (+4)
Priffyrdd ac Amgylchedd	20	26 (+6)	43	39 (-4)	10	9 (-1)	4	4	4	3 (-1)	3	3	6	16 (+10)
Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	23	22 (-1)	36	31 (-5)	10	12 (+2)	8	8	4	4	14	12 (-2)	5	11 (+6)
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad	20	28 (+8)	25	25	9	10 (+1)	4	4	4	4	4	4	33	25 (+8)

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Canlyniadau Staff Ysgolion yn unig

Lefel	Nifer y staff		% y staff	
	2021	2022	2021	2022
Lefel 0	380	387	19.5%	20%
Lefel 1	528	526	27.1%	27.2%
Lefel 2	299	293	15.3%	15.1%
Lefel 3	117	114	6.0%	5.9%
Lefel 4	90	87	4.6%	4.5%
Lefel 5	510	502	26.2%	25.9%
Dim gwybodaeth	24	26	1.2%	1.3%
Cyfanswm	1948	1935	100%	

Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg

Rydym yn parhau i weithredu'r Fframwaith sydd yn ffordd syml i staff hunan asesu eu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad a deall) y gallent eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ffordd effeithiol o fedru monitro pa lefel o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd a pha gwrs y bydd gweithwyr ei

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

angen er mwyn symud i'r lefel nesaf. Mae dilyn y fframwaith hwn yn ein galluogi i gefnogi gweithwyr ar eu taith iaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Rydym hefyd wedi asesu pob swydd o fewn y Cyngor, yn dilyn y fframwaith uchod, o ran pa lefel o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer y swydd benodol honno. Wrth recriwtio, ni fydd yr un swydd yn cael ei hysbysebu fel Cymraeg hanfodol neu ddymunol gan y bydd pob person angen o leiaf lefel 1 mewn sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y swydd. Felly mewn ffordd, mae Cymraeg yn "hanfodol" ar gyfer pob swydd. Os nad oes gan y person y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, yna maen orfodol arnynt i fynychu hyfforddiant a chyrraedd y lefel honno o fewn 6 mis, sef y cyfnod prawf (yn ddibynnol ar y sefyllfa), gyda chefnogaeth gan ein Swyddog Iaith Gymraeg. Bydd sgiliau iaith Gymraeg pob gwasanaeth yn cael eu monitro bob chwe mis a bydd y Rheolwyr hefyd yn derbyn gwybodaeth am allu iaith Gymraeg gweithwyr o fewn eu gwasanaeth.

Gwersi Cymraeg

Dyma'r nifer o aelodau staff y Cyngor fynychodd wersi Cymraeg drwy gynllun 'Cymraeg Gwaith' gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol:-

Lefel	Nifer
Mynediad	2
Sylfaen	0
Canolradd	1
Uwch	0
Hyfedredd	0
Nant Gwrtheyrn (preswyl)	4
Cyfanswm	7

Mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisiau dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru, sefydliad y marchod a gwybodaeth am y Gymraeg sydd wedi'i deilwra ar gyfer Darparwyr Gofal Plant.

Dyma'r nifer o staff sydd wedi dechrau/gorffen y cyrsiau ar-lein:-

Cwrs (rhan 1 a 2)	Nifer
Croeso	34
Croeso nôl	17
Gwella Cymraeg gwaith	12
Manwerthu	2
Sector Gofal	7
Twristiaeth	2
Gwasanaethau Cyhoeddus	1
Penaethiaid	1
Sector Iechyd	1
Athrawon	1
Cyfanswm	78

Recriwtio – Swyddi gwag a newydd

Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbyswyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022. Roedd gennym y gofynion iaith Gymraeg canlynol ar ein swyddi gwag a hysbysebwyd ar gyfer swyddi dan gontract:

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Dynodiad	Nifer y swyddi fesul categori iaith	% y swyddi fesul categori iaith
Hanfodol	150	14%
Angen dysgu Cymraeg	1	0%
Dymunol	916	85%
Ddim yn angenrheidiol	6	1%
Cyfanswm	1073	100.0%

Cynnydd gyda fframwaith ‘Mwy na Geiriau’

O ran ein cynllun busnes ar gyfer 2021-22, isod mae crynodeb o'r camau a gyflawnwyd mewn perthynas â 'Mwy na Geiriau'.

O fewn y tîm Datblygu'r Gweithlu, rydym yn parhau yn ein cylchlythyr misol i rannu gwybodaeth sy'n hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda Darparwyr Gofal a phartneriaid. Rydym hefyd wedi lansio ein gwefan hyfforddiant sy'n cynnwys manylion am sut y gall Darparwyr Gofal ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau amrywiol i annog, cynorthwyo a chefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys dolenni ac adnoddau i hybu'r Gymraeg o fewn gofal cymdeithasol a gwybodaeth am y cynnig rhagweithiol a Mwy na Geiriau.

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/datblygu-a-hyfforddir-gweithlu/cymraeg-mewn-gwaith-gofal-cymdeithasol.aspx>

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Eleni hefyd, rydym wedi rhoi cyflwyniad ar lein ar y cymorth sydd ar gael i staff Gofal ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Trefnwyd y cyflwyniad hwn gan Gyngor Gofal Cymru. Mae'r tîm hefyd wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru i roi cyflwyniadau i ddisgyblion blwyddyn 9 am 'ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn Gofal'. Yn ogystal, cyflwynwyd RITA (gweithgareddau therapi rhyngweithiol hel atgofion) i Gartrefi gofal a Tai Gofal Ychwanegol. Buom yn trafod y cynnwys gyda'r cwmni, gan sicrhau fod delweddau hel atgofion lleol i Sir Ddinbych ar gael a mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Rydym hefyd wedi comisiynu'r cyrsiau canlynol ar gyfer Darparwyr Gofal sy'n gweithio ar draws y gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae'r rhain wedi cynnwys cwrs blasu'r Cymraeg a hefyd cwrs ar-lein sy'n addas ar gyfer staff sy'n deall Cymraeg llafar yn rhwydd ond heb yr hyder i ddefnyddio'u Cymraeg. Rydym hefyd wedi comisiynu cwrs i arfogi staff Gofal i gyfarch a chwrdd â'r cyhoedd yn Gymraeg ac i wneud y cynnig rhagweithiol. Mae staff sy'n newydd i'r adran yn cael cyflwyniad am 'Mwy Na Geiriau' a'r cynnig rhagweithiol fel rhan o'u cyflwyniad sefydlu.

Gwobr 'Gofalu yn y Gymraeg'

Enillodd Rheolwr Gwasanaeth Cyngor Sir Ddinbych, sef Alaw Pierce, y wobwr 'Gofalu yn y Gymraeg' mewn seremoni gwobrwyo Cenedlaethol a drefnwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Drwy gydol ei gyrfa, mae Alaw wedi cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wedi annog diwylliant lle gall staff ddefnyddio'r Gymraeg yn gyfforddus yn y gwaith. Dathlwyd ei rôl yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl trwy ddarparu gofal o ansawdd uchel trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, llwyddodd Catherine Roberts, Rheolwr Cynorthwyol yng Nghartref Gofal Cysgod y Gaer, Corwen i gyrraedd y rhestr fer yn yr un categori.

Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Mae yna le ar gyfer 2304 o ddisgyblion cynradd llawn amser i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgolion Sir Ddinbych. Mae 10 o'r safleoedd ysgol hyn hefyd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf. Ym mlwyddyn academiaidd 2020/21 fe dderbyniodd 27% o'r holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen addysg cyfrwng Cymraeg.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22

Mae Sir Ddinbych wedi cael targed i gynyddu nifer y disgyblion Blwyddyn 1 a gaiff eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 10% dros y 10 mlynedd nesaf. Yn gyffredinol mae yna 10.2% o leoedd gwag o fewn ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Gymraeg i alluogi twf. Fodd bynnag nid yw'r capasiti hwn wedi ei ddosbarthu'n gyfartal drwy'r Sir ac mae llai na 4% o le ar gael yn ardaloedd Dinbych, Edeyrnion a Dyffryn Dyfrdwy.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae 93% o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych a oedd yn astudio'r Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi trosglwyddo i ddarpariaeth addysg Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth drochi yn Ysgol Glan Clwyd sy'n galluogi hwyrdyfodiaid i fynychu addysg cyfrwng Gymraeg.

Yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael roedd 95% o ddisgyblion a oedd wedi eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 wedi parhau i ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

Mae 14 o ysgolion cyfrwng Gymraeg y Sir wedi derbyn gwobr Aur y Siarter Iaith.

Mae 33 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn dilyn fframwaith Gymraeg Campus. Ar hyn o bryd mae 22 ysgol wedi llwyddo i gyrraedd y wobwr Efydd ac un ysgol, Ysgol Bodnant wedi llwyddo i gyrraedd gwobr Arian. Nid oes neb eto wedi llwyddo i gyrraedd gwobr Aur.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i: Grŵp Llywio Iaith Gymraeg

Dyddiad y cyfarfod: 8 Gorffennaf 2022

Aelod Arweiniol / Swyddog Cynghorydd Emrys Wynne/ Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr
Corfforaethol

Awdur yr adroddiad: Gareth Watson

Teitl Eisteddfod yr Urdd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cydfynd â chyflwyniad sy'n adlewyrchu ar lwyddiant Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am lwyddiant Eisteddfod yr Urdd a'r buddion i'r Cyngor a'r sir ehangach.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 I nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad a'r cyflwyniad.

3.2 Ymchwilio i ffyrdd y mae llwyddiant yr Eisteddfod yn gadael gwaddol barhaol i'r iaith Gymraeg a diwylliant.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Dychwelodd Eisteddfod yr Urdd i Sir Ddinbych fis diwethaf (30 Mai i 4 Mehefin) yn dilyn bwloch o ddwy flynedd. Roedd yr ŵyl wreiddiol i fod i gael ei chynnal ym mis Mai 2020, ond cafodd ei gohirio oherwydd Covid.

4.2. Y gobaith yw y bydd yr Eisteddfod wedi gadael gwaddol barhaol o ran diddordeb yn yr iaith, diwylliant a threftadaeth Gymraeg. Bydd llawer o blant ysgol wedi cystadlu am y tro cyntaf ac wedi cael perfformio ar lwyfan yr Urdd heb wrandawiadau rhagarweiniol.

4.3. Y gobaith hefyd yw y bydd yr economi leol a'r fasnach dwristiaeth yn cael etifeddiaeth barhaus, gyda mwy a mwy o bobl yn ymweld â'r sir a rhanbarth ehangach Gogledd Ddwyrain Cymru. Dywedodd llawer o bobl a ymwelodd â phabell fawr Sir Ddinbych mai hwn oedd eu tro cyntaf yn y sir ac y byddent yn dod yn ôl i dreulio mwy o amser yma. Mae gwaith ymchwil yn cael ei gynnal gan yr Urdd er mwyn astudio'r budd economaidd o gael yr Eisteddfod yn y sir.

4.4. Dylai'r Cyngor hefyd weithio'n agos gyda'r Urdd a phartneriaid cymunedol eraill i ganfod cyfleoedd i fanteisio ar ddiddordeb yn yr Urdd ac i gynnal digwyddiadau rheolaidd eraill a fydd yn cynnal rhywfaint o'r bwrlwm a'r momentwm.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae hefyd yn cyfrannu at y Strategaeth Iaith Gymraeg sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod cymunedau lleol yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn digwyddiadau megis yr Eisteddfod.

6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

6.1 Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

6.2 Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn ycelfyddydau, chwaraeon a hamdden."

6.3 Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cyfarfod	Eitem (Disgrifiad / Teitl)	Pwrpas yr Adroddiad	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
8 November 2022			

Note for Officers – Report Deadlines

<i>Meeting</i>	<i>Deadline</i>	<i>Meeting</i>	<i>Deadline</i>	<i>Meeting</i>	<i>Deadline</i>
<i>November</i>	26 October				

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag